Gair gan y Maer

Boreau Coffi

Ymwelodd y Maer ddau fore coffi yn ystod mis Hydref.
Y cyntaf, oedd un wedi ei drefnu gan Gillian Morris at gronfa Breast Cancer Care. Cafwyd bore prysur iawn, gyda 45 o wobrau raffl i'w tynnu. Diolch i Gillian ac i siopau, busnesau a thrigolion Pwllheli am eu haelioni. Casglwyd dros £550 i'r elusen. Dymuniadau gorau i Gillian gyda'i thriniaeth.
Dynes ysbrydoledig er gwaetha ei brwydrau dewr.

Cafodd y Maer gwmni'r Dirprwy Faer i Fore Coffi Capel Bethel, Penrhos. Braf oedd cwrdd gydag aelodau'r achos a thrigolion y dref a thu hwnt. Casglwyd £810 yn ystod y bore.

Llongyfarchiadau

Dymunodd y Maer pob lwc i Llinos Elin Owen, merch y Cynghorydd Michael a Gwyneth Sol Owen ar gael ei chynnwys yng ngwersyll paraganw tïm caicawyr Prydain. Dymuniadau gorau gyda'r ymarfer a chyda gobaith gemau Paralympaidd yn Tokyo, Japan yn 2020.

Noson Anrhydeddu'r Prifardd Cadeiriol Gruffudd Eifion Owen

Diolchodd y Maer i bawb a ddaeth i'r noson, nos Wener diwethaf.
Diolchodd i'r Caplan, Y Parchedig Glenys Jones am arwain mewn gweddi ac i'r Darpar Archdderwydd Myrddin ap Dafydd am gyfarch y Prifardd.

Sul y Cofio

Eleni fe nodir 100 mlynedd ers diwedd y Rhyfel Mawr.
Mae paratoadau eisoes wedi eu gwneud fel sy'n draddodiad i gofio am y rhai a gollwyd ac anafwyd yn y Rhyfel Mawr a rhyfeloedd eraill.
Atgoffwyd y Cynghorwyr y cynhelir Gwasanaeth Sul y Cofio am 9:30 bore Sul yr 11eg. Gofynnir yn garedig i bob Cynghorydd sydd am fynychu'r gwasanaeth yn Eglwys Sant Pedr i ymgynnull erbyn 9:20yb.
Yna, wedi'r oedfa bydd pawb yn cerdded i'r gofeb erbyn 10:45yb.
Diolchodd y Maer i'r Cynghorydd Hefin Underwood am ei gymorth parod fel arfer, i helpu'r Maer i osod y pabis o amgylch y dref.

Diolch
Mae hi bob amser yn bwysig i ddiolch i bobl am eu parodrwydd i helpu, gwirfoddoli yn ein tref. Mae'n air byr a chryno, ond yn mynd yn bell.
Diolch i'r Cynghorydd Michael Sol Owen a'r Cynghorydd Henry Rees Williams a'r Dirprwy Glerc am eu hamrywiol gwaith yn ddiweddar gyda'r siambr. Diolch hefyd i'r Cynghorydd Elin Hywel gyda'r cyfrifon.

Diolch i'r Cynghorydd Ffiona Adams a'r gwirfoddolwyr eraill a fu'n ddiwyd iawn yn clirio a thacluso safle bysiau'r dref yn ddiweddar.

Noson Tân Gwyllt

Pleser oedd cael cyfrannu'n ariannol at ymdrechion Curiad Calon Pwllheli
i'r noson Tân Gwyllt. Gwirfoddolwyr eraill sy'n barod i weithio er budd eraill yn y dref.

Diwedd Cyfnod
Prynhawn Sul diwethaf, cynhaliwyd gwasanaeth olaf yng Nghapel Seion (Weslesiaid) yn y dref. Mae hanes llawn yr achos ar wefan y Cyngor Tref.
Diolch i'r Parchg. Cynghorydd Ioan Gruffydd am ei waith diwyd gyda'r wefan.

Cofion Gorau
Dymuniadau gorau i fam y Cynghorydd Ffiona Adams sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd wedi codwm hegar.

Mae meddyliau pawb hefyd yn parhau gyda'r Clerc Mr Robin Hughes a'i deulu.

Eric Wyn Roberts
Tachwedd 1af, 2018.